Gwybodaeth i Gleifion

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

# Cyffuriau ar gyfer thrombolysis cynnar wrth drin cnawdnychiad myocardaidd aciwt

Hydref 2002

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

11 Strand
London
WC2N 5HR

Web: www.nice.org.uk

## Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n llunio arweiniad ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol ar gyfer pobl sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer cleifion a'u gofalwyr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, bydd NICE yn edrych ar ba mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd ar ba mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gwneuthurwyr y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, y cleifion a'u gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt. Bydd pob arfarniad yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer trin trawiadau cynnar ar y galon gyda chyffuriau sy'n ceisio adfer llif y gwaed i gyhyr y galon, a rhoi arweiniad a fyddai'n helpu'r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pa bryd y dylid eu defnyddio.

## Beth yw cnawdnychiad myocardaidd aciwt?

Trawiad ar y galon yw cnawdnychiad myocardaidd aciwt. Mae trawiad ar y galon yn digwydd pan fydd ceulad gwaed yn rhwystro un o'r pibellau gwaed mawr sy'n cludo gwaed sy'n llawn ocsigen i'r galon (fe'u gelwir yn rhydwelïau coronaidd). Mae'r rhwystr yn atal gwaed rhag cyrraedd rhan o gyhyr y galon ac mae hyn yn cael effaith mor ddifrifol ar y rhan honno o'r galon fel ei bod yn cael ei niweidio'n barhaol.

Thrombws yw'r enw ar geulad gwaed sy'n ffurfio y tu mewn i bibell waed. Yn y rhydwelïau coronaidd mae'r ceulad gwaed fel arfer yn ffurfio lle y bydd y rhydweli wedi culhau eisoes yn sgîl casgliad o sylweddau brasterog ar y mur mewnol.

Mae tua 240,000 o bobl yn cael trawiad ar y galon yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae'r symptomau'n datblygu'n gyflym iawn ac mae'r risg uchaf o farwolaeth yn bodoli o fewn yr awr gyntaf o brofi symptomau.

## Beth yw thrombolysis cynnar?

Cyffur thrombolytig yw cyffur sy'n teneuo'r ceulad gwaed er mwyn adfer llif y gwaed i gyhyr y galon a rhwystro niwed pellach. Po gynharaf y gellir adfer llif y

gwaed, y gorau yw'r tebygolrwydd o gyfyngu ar y niwed i'r galon. Mae 'Thrombolysis cynnar' yn golygu rhoi cyffur thrombolytig cyn gynted â phosibl ar ôl i'r trawiad ar y galon ddechrau.

Symptom arferol trawiad ar y galon yw poen parhaus sy'n gwasgu ar y frest nad yw'n diflannu gyda'r gweddill. Defnyddir prawf o'r enw electrocardiogram, sy'n mesur gweithgaredd y galon, i gadarnhau bod rhywun wedi cael trawiad ar y galon a bod angen triniaeth gyda chyffur thrombolytig arnynt.

Rhoddir cyffuriau thrombolytig drwy bigiad i mewn i wythïen (o'r enw pigiad mewnwythiennol) neu drwy drwythiad i mewn i wythïen (o'r enw trwythiad mewnwythiennol). (Mae 'trwythiad mewnwythiennol' – a elwir yn 'ddiferiad' yn aml – yn golygu bod y cyffur hylifol yn cael ei gyflwyno i'r corff yn araf drwy diwb a roddir i mewn i wythïen.) Fel arfer, rhoddir cyffuriau thrombolytig mewn ysbytai cyn gynted â phosibl ar ôl cadarnhau bod y claf wedi cael trawiad ar y galon. Yn gynyddol, mae parameddygon ambiwlans yn rhoi

cyffuriau thrombolytig cyn i’r claf gyrraedd yr ysbyty.

Mae pedwar cyffur thrombolytig ar gael yn y DU ar hyn o bryd: alteplase, reteplase, streptokinase a tenecteplase. Rhoddir alteplase a streptokinase drwy drwythiad mewnwythiennol. Rhoddir reteplase a tenecteplase drwy bigiad mewnwythiennol.

Gyda chyffuriau thrombolytig mae risg o broblemau gwaedu, ac yn arbennig o waedu yn yr ymennydd gan achosi strôc. Mae pobl a gaiff eu trin gan streptokinase yn datblygu sylweddau yn eu gwaed o’r enw gwrthgyrff a all atal streptokinase rhag gweithio os cânt eu trin â’r cyffur eto.

## Beth mae NICE wedi ei argymell?

Mae’r arweiniad hwn gan NICE yn gwneud argymhellion ynglŷn â pha gyffuriau thrombolytig y dylid eu defnyddio ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawiad ar y galon.

Ar gyfer triniaeth gyda chyffuriau thrombolytig mewn ysbyty, mae NICE yn argymell y dylai meddygon ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu pa gyffur thrombolytig (alteplase, reteplase, streptokinase neu tenecteplase) i’w ddefnyddio ar gyfer claf unigol.

- Buddiannau a risgiau tebygol y cyffuriau thrombolytig, fel strôc, ar gyfer y claf unigol.

- Yr hyn sy'n arferol yn y DU yw na ddylai cleifion sydd wedi'u trin â streptokinase o'r blaen gael eu trin ag ef eto.

- Sut y caiff trefniadau'r ysbyty eu llunio i sicrhau bod thrombolysis yn cael ei roi cyn gynted â phosibl ar ôl i'r claf gael ei dderbyn.

Mae NICE hefyd wedi gwneud argymhellion ynglŷn â pha gyffuriau i'w defnyddio pan fydd trefniadau gofal brys ar gyfer pobl sy'n cael trawiad ar y galon yn cynnwys rhoi cyffuriau thrombolytig cyn i'r claf gyrraedd yr ysbyty – er enghraifft, efallai mai dyma fydd y drefn ar gyfer cymunedau sy'n bell i ffwrdd o ysbyty sydd â chyfleusterau achosion brys. O ganlyniad i'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gosod trwythiad mewnwythiennol o gyffur thrombolytig yn rhywle ar wahân i ysbyty, mae NICE yn argymell y dylid defnyddio cyffur thrombolytig drwy bigiad mewnwythiennol (reteplase neu tenecteplase) yn yr achosion hyn.

## Beth y dylwn i ei wneud?

Mewn sefyllfa nad yw'n achos brys, efallai yr hoffech drafod yr arweiniad yn y daflen hon gyda'ch meddyg os oes gennych broblemau â'ch calon, os ydych wedi cael trawiad ar y galon yn y gorffennol, neu os ydych yn meddwl bod risg y byddwch yn cael trawiad ar y galon.

## A fydd NICE yn edrych ar ei arweiniad eto?

Bydd. Bydd NICE yn edrych ar yr arweiniad hwn eto ym mis Awst 2005.

## Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar ddefnyddio thrombolysis cynnar a roddwyd i'r GIG ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir gofyn am gopi o'r arweiniad hefyd gan Linell Ymateb y GIG drwy ffonio 0870 1555 455 a dyfynnu cyfeirnod N0170.

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd a'ch bod yn dymuno cael gwybod mwy am drawiad ar y galon, gan gynnwys gwybodaeth am driniaeth gyda chyffuriau thrombolytig, ymwelwch â gwefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.nhs.uk). Gallwch hefyd ffonio Galw Iechyd Cymru ar 08 45 46 47.